

TUDUR ALED (fl. 1480-1526), bardd

Enw: Tudur Aled
Rhiant: Robert ab Ithel
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: John Ellis Caerwyn Williams

Ganwyd ym mhlwyf Llansannan. Ceir llawer o gopïau o'i ach yn y llawysgrifau, ond ysywaeth, y mae ychydig amrywiadau ynddynt. Ymddengys mai enw ei dad oedd Robert ac mai enw ei daid oedd Ithel a'u bod hwy'n ddisgynyddion i Lywelyn Chwith; dywed [Huw ap Dafydd](#) yn ei farwnad i Tudur Aled - ' Ail lolo, o Lywelyn, Ag o du'r Chwith, gwenith gwyn ' (*G.T.A.*, ii, 728). Ar ochr ei dad, felly, yr oedd y bardd yn perthyn i Lwydiaid y Chwibren, cainc o deulu [Llwydiaid](#) Hafod Unnos a olrheiniai eu hachau i Hedd Molwynog (neu Ab Alunawg), pennaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd (op. cit., I, iv, 35), a gallai ymffrostio ei fod yn uchelwr. Honnai berthynas â [Dafydd ab Edmwnd](#), ' ewythr o waed ' (op. cit., I, lxx, 29), ac â Gwenhwyfar, ferch Rhys ab Einion a gwraig Robert Salbri o Lanrwst (op. cit., I, iv, 38), a chesglir ei fod yn perthyn i Gruffudd ap Dafydd ap Maredudd, maer Rhuthyn, os oedd hwnnw, fel y dywed y bardd, yntau'n un o ddisgynyddion Llywelyn Chwith (op. cit., II, cxix, 11).

Anodd casglu pa bryd y dechreuodd brydyddu. Ceir cyfeiriadau pendant ganddo at frwydr Blackheath (1497); gweler op. cit., I, iv, 5; vii, 56. Gwelodd golygydd ei waith gyfeiriadau at frwydr Bosworth (1485) yn ei gywydd i [Syr William Gruffudd](#) y Siambren (op. cit., I, xxxiii, 31-4, 49), a chasglodd fod y bardd wedi dechrau prydyddu ychydig amser cyn hynny, gan mai 'cywyddau merch' fyddai ei gywyddau cyntaf yntau fel y rhelyw o'r beirdd, yn ôl pob tebyg (op. cit., I, xxi).

Nid oes sicrwydd chwaith yngl n â'r lle y cafodd y bardd ei addysg, ond y mae'n amlwg ei fod wedi ei drwytho yn y traddodiadau Cymreig. Dywed traddodiad ei fod yn ddisgybl i [Ddafydd ab Edmwnd](#), a dywed y bardd ei hun hynny yn ei farwnad iddo ' F'ewythr o waed, f'athro oedd ' (op. cit., I, lxx, 29). Ni wyddys pa bwys i roi ar y geiriau hyn, oblegid dywed y bardd fod leuan ap Llywelyn ab leuan ap Dafydd yntau'n athro iddo (op. cit., I, lxxviii, 58). Wrth gwrs, y mae'n bosib fod y ddau'n athrawon iddo. Nid oes dim yn annhebygol yn y gosodiad fod Tudur Aled yn ddisgybl i [Ddafydd ab Edmwnd](#), oblegid yn Sir y Fflint y preswyliai'r olaf ac yr oedd ganddo eiddo ym Mhwl Gwepa, ac fe all fod leuan ap Llywelyn yn un o'r beirdd a oedd yn bresennol yn y neithior yn neuadd leuan ap Dafydd ap Ithel Fychan o Degeingl (op. cit., I, lxxvii) pan gafodd Tudur Aled ei radd gyntaf fel bardd. Bid a fo am hynny, daeth Tudur Aled yn fardd o fri a dylanwad mawr, ac yr oedd yn un o'r ddau fardd a oedd y tu ôl i gynnal eisteddfod Caerwys yn 1524 i ' wneud ordr a llywodraeth ar w r gerdd ac ar ei celfyddyd,' ac fe'i gwnaed yn fardd neu'n athro 'cadeiriog' yn yr eisteddfod honno. Yn ei farwnad i Tudur Aled y mae gan [Lewys Môn](#) gwpled: ' Dug ar i wn, fel dau grair, Diwedd gwawd, y ddwy gadair ' (op. cit., II, 734), a chymerwyd bod hynny'n awgrymu ddarfod gwneuthur Tudur Aled yn athro cerdd dant yn ogystal ag yn athro cerdd dafod (op. cit., I, xxxviii).

Un o noddwyr Tudur Aled oedd [Syr Rhys ap Thomas](#) (gweler op. cit., I, vii, xii, xiii, xiv; II, cxxxvii). Bu [Syr Rhys](#) farw yn 1526. Ni chanodd y bardd farwnad iddo, a chan na wnaeth, cesglir ei fod yntau wedi marw yng Nghaerfyrddin yn sydyn, ac yn fuan ar ôl ei noddwr, a'i fod wedi ei gladdu yno yng Nghwrt y Brodyr, fel y dengys y marwnadau iddo, ac yn abid y Brodyr Llwydion, abid a gymerth, yn ôl arfer llawer yn yr oes honno, yn ei afiechyd olaf (gweler op. cit., II, 725, 15-25, 729, 23-6, 735, 9-14). Yn ei farwnad iddo, dywed [Raff ap Robert](#) ' Mae'n brudd llu am un bardd llwyd, O bur addysg, a briddwyd; Aeron o gorff yr un g r, Un i Dduw yn weddiwr; Dyna roi un da'n i raid, Syr Siôn, rhag siars i enaid; Peri alaeth i'r prelad, Fu oer a dwys farw i dad ' (op. cit., II, 744, 17-24). Ar sail y geiriau hyn, dywedwyd bod Tudur Aled yn briod, neu, o leiaf, fod ganddo fab, a bod hwnnw'n offeiriad (op. cit., I, xlvi), ond nid oes dystiolaeth arall o blaid credu hynny.

Awdur

Yr Athro John Ellis Caerwyn Williams, (1912 - 1999)

Ffynonellau

T. Gwynn Jones, *Gwaith Tudur Aled* (1926), i a ii, 1926

J. Morris-Jones, 'Tudur Aled,' yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1908-9, 21-52

Saunders Lewis, 'Tudur Aled,' yn *Efrydiau Catholig*, i, 32-46

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Tudur Aled](#)

Gweithiau

Barddoniaeth gan hen awdwyr or, Ancient Welsh poetry (Middle Hill Press 1840?)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [9618003](#)

Wikidata: [Q3404816](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

